



# Artist Mewn Gwasanaeth:

Prosiect Plas y Bobl

## Artist in Service:

Plas y Bobl Project



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI  
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

[eryri.llyw.cymru](http://eryri.llyw.cymru)



FRÂN  
WEN



## 1. Cefndir a Phwrpas y Comisiwn

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn bwriadu penodi Artist Mewn Gwasanaeth (Artist Preswyl sy'n cael ei ddefnyddio yn y sector) i gydweithio a'r Awdurdod am 12 mis (45 wythnos sydd yn y cais), ar gyfnod gwirioneddol gyffrous yn hanes yr Awdurdod a Phlas Tan y Bwlch. Ariennir y cyfle hwn yn rhannol gan gronfa Creu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Nod y comisiwn hwn yw penodi Artist Mewn Gwasanaeth fydd yn cydweithio gydag APCE, ei bartneriaid a'r sector greadigol i ymgysylltu cymunedau a chynulleidfaoedd ledled Eryri yn nyfodol Plas Tan y Bwlch ac Eryri, adferiad natur a'r argyfwng newid hinsawdd, drwy'r celfyddydau a chyfryngau creadigol. Carem i'r ymgysylltiad yma sbarduno ymateb emosiynol, gan arwain at alwad i weithredu yn ystyrlon.

Bydd yr Artist Mewn Gwasanaeth yn angerddol dros faterion amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, treftadaeth ddiwylliannol Eryri a chynaliadwyedd. Bydd yr Artist Mewn Gwasanaeth yn cyfrannu llais creadigol, meddwl beirniadol a chydweithio dychmygus i'n gwaith, gan rymuso negeseuon APCE dros adferiad natur, cynaliadwyedd a threftadaeth ddiwylliannol.

## 1. Background and Purpose of the Commission

The Eryri National Park Authority intends to appoint an Artist in Service (Artist in Residence used in the sector) to collaborate with the Authority for 12 months (45 weeks noted in the application), at a truly exciting time in the history of the Authority and Plas Tan y Bwlch. This opportunity is part funded by the Arts Council of Wales Create fund.

The aim of this commission is to appoint an Artist in Service who will work with ENPA, its partners and the creative sector to engage communities and audiences across Eryri in the future of Plas Tan y Bwlch and Eryri, nature recovery and the climate change crisis, through the arts and creative media. We would like this engagement to trigger an emotional response, leading to a call for meaningful action.

The Artist in Service will be passionate about environmental issues, social and environmental justice, Eryri's cultural heritage and sustainability. The Artist in Service will contribute a creative voice, critical thinking and imaginative collaboration to our work, empowering ENPA's messages for nature restoration, sustainability and cultural heritage.



## 2. Parc Cenedlaethol Eryri

Mae gan Barciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr ddau bwrpas statudol, sef:

1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd.
2. Darparu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau a dysgu am rinweddau arbennig yr ardal.

Wrth gyflawni'r pwrpasau hyn, mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol drydydd dyletswydd i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parciau Cenedlaethol.

Os bydd gwrthdaro rhwng y pwrpasau, bydd y pwrpas cyntaf (cadwraeth) yn cael ei flaenoriaethu (Egwyddor Sandford).

Sefydlwyd y Parc Cenedlaethol ym 1951 ac eleni bydd yn dathlu ei 75 mlwyddiant. Yn ymestyn dros gyfanswm o 823 milltir sgwâr, Eryri yw Parc Cenedlaethol mwyaf Cymru. Yn gartref i dros 26,000 o bobl, mae tirwedd Eryri yn frith o ddiwylliant, hanes a threftadaeth, lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead dydd i ddydd yr ardal.

Mae bron i 4 miliwn o bobl yn ymweld ag Eryri bob blwyddyn i grwydro ei chopaon aruthrol a'i dyffrynnoedd syfrdanol, dod o hyd i lonyddwch ar ei llwybrau llai sathredig a darganfod ei chyfleoedd hamdden helaeth.

## 2. Eryri National Park

The National Parks of Wales and England have two statutory purposes, namely:

1. To conserve and enhance the natural beauty and cultural heritage of the areas.
2. To provide opportunities for the public to enjoy and learn about the special qualities of the area.

In delivering these purposes, National Park Authorities have a third duty to foster the social and economic well-being of the National Park communities.

If there is a conflict between the purposes, the first purpose (conservation) will be prioritized (Sandford's Principle).

The National Park was established in 1951 and this year it will celebrate its 75th anniversary. Covering a total of 823 square miles, Eryri is Wales' largest National Park. Home to over 26,000 people, the landscape of Eryri is steeped in culture, history and heritage, where the Welsh language is part of the day-to-day fabric of the area.

Almost 4 million people visit Eryri each year to explore its towering peaks and stunning valleys, find tranquillity on its less trodden trails and discover its vast recreational opportunities.



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru  
© Crown Copyright Visit Wales

## Ffeil o Ffeithiau Eryri

9 cadwyn o fynyddoedd  
74 milltir o arfordir  
11,000 erw o goedlannau brodorol  
58% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg  
1497 o lwybrau

Rhinweddau Arbennig Parc Cenedlaethol  
Eryri:


- Tirweddau Amrywiol: Mae Eryri'n cynnwys tirweddau a threfweddau amrywiol, o'r mor i'r mynydd. Mae'n un o'r ychydig leoedd yn y byd lle gallwch chi brofi'r holl amgylcheddau hyn o fewn pellter mor agos i'w gilydd.
- Cydlyniant Cymunedol: Ymdeimlad cadarn o hunaniaeth gymunedol fywiog sy'n cyfuno i roi ymdeimlad cryf o berthyn yn y 24 pentref a phum tref yn Eryri.
- Bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg: Mae bywiogrwydd y Gymraeg yn Eryri yn amlwg gan mai dyma'r iaith o ddewis mewn nifer o amgylchiadau proffesiynol a chymdeithasol.
- Ysbrydoliaeth ar gyfer y Celfyddydau: Mae Eryri wed ysbrydoli peth o ddiwylliant, llen gwerin, llenyddiaeth a cherddoriaeth fwyaf nodedig y genedl.

## Eryri Fact-File

9 mountain ranges  
74 miles of coastline  
11,000 acres of native woodland  
58% of the population speaks Welsh  
1497 trails

Special Qualities of Eryri National Park:

- Varied Landscapes: Eryri is made up of diverse landscapes and townscapes, from the sea to the mountain. It's one of the few places in the world where you can experience all of these environments within such close distance of each other.
- Community Cohesion: A strong sense of vibrant community identity that combines to give a strong sense of belonging in the 24 villages and five towns in Eryri.
- The vibrancy of the Welsh language: The vibrancy of the Welsh language in Eryri is evident as it is the language of choice in many professional and social circumstances.
- Inspiration for the Arts: Eryri has inspired some of the nation's most distinctive culture, folklore, literature and music.



- Llonyddwch ac Unigedd: Mae llonyddwch yn dal i fodoli mewn sawl rhan o Eryri. Yn ystod y dydd gallwch archwilio'r mynyddoedd mawr anghysbell a garw, ac yn y nos mwynhewch yr awyr dywyll dan y ser.
- Hamdden a Dysgu: Yn Eryri, ceir cyfleoedd helaeth yn ymwneud a gweithgareddau hamddena a dysgu ar gyfer pobl o bob oed a gallu.
- Tirweddau Hanesyddol: Mae tirweddau Eryri wedi cael eu llunio gan ganrifoedd o weithgarwch dynol. Mae hanes, traddodiadau a ffyrdd o fyw yn cae leu hadlewyrchu mewn henebion, safleoedd, adeiladau, patrymau aneddiadau, caeau ac enwau lleoedd.
- Daeareg Byd Enwog: Mae Eryri wedi'i chreu drwy stori gymhleth o gyfandiroedd yn gwrthdaro, llosgfynyddoedd, ffurfio mynyddoedd, newidiadau yn y mor a rhewlifant.
- Cynefinoedd a Rhywogaethau Rhyngwladol Bwysig: Mae 17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Eryri a 56 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – prawo'r bioamrywiaeth aruthrol sy'n cael ei adlewyrchu yn y dirwedd amrywiol.
- Tranquility and Solitude: Tranquility still exists in many parts of Eryri. During the day you can explore the remote and rugged great mountains, and at night enjoy the dark sky under the stars.
- Leisure and Learning: In Eryri, you can find extensive opportunities relating to leisure and learning activities for people of all ages and abilities.
- Historic Landscapes: The landscapes of Eryri have been shaped by centuries of human activity. The history, traditions and living practices are reflected in monuments, sites, buildings, settlement patterns, fields and place names.
- World Famous Geology: Eryri is created through a complex story of colliding continents, volcanoes, the formation of mountains, sea changes and glaciation.
- Habitats and Species of International Importance: There are 17 National Nature Reserves in Eryri and 56 sites of Special Scientific Interest – evaluating the immense biodiversity that is reflected in the diverse landscape.



### 3. Plas Tan y Bwlch

Mae Plas Tan y Bwlch yn adeilad rhestredig gradd II\* a chyn-gartref y teulu Oakeley, tiffeddianwyr blaenllaw yn niwydiant lechi Ffestiniog. Saif ger pentref Maentwrog ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac o fewn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Lechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae gerddi'r Plas hefyd yn rhestredig ar gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru ac mae'r gerddi a'r goedlan yn gartrefi i fioamrywiaeth amrywiol: adar, ystlumod, mamaliaid, bryoffytau, coed a phlanhigion.

Ym 1974, daeth Plas Tan y Bwlch yn ganolfan astudio i Barc Cenedlaethol Eryri ac ers hynny, mae cenedlaethau o bobl ifanc, dysgwyr gydol oes a gweithwyr proffesiynol y sectorau amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol wedi cael budd o addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

### 3. Plas Tan y Bwlch

Plas Tan y Bwlch is a grade II\* listed building and the former home of the Oakeley family, leading landowners in the Ffestiniog slate industry. It is located near the village of Maentwrog in the Eryri National Park and within the North West Wales Slate Landscape World Heritage Site. The Plas gardens are also listed on the register of Landscapes, Parks and Gardens of Historic Interest in Wales and the gardens and woodland are home to diverse biodiversity: birds, bats, mammals, bryophytes, trees and plants.

In 1974, Plas Tan y Bwlch became the study centre for the Eryri National Park and since then, there have been generations of young people, lifelong learners and professionals in the natural environment and cultural heritage sectors who have attended the Plas over the years, reaping the benefits of education, training and professional development.

Ar hyn o bryd, mae APCE yn datblygu cynllun hirdymor i fuddsoddi ym Mhlas Tan y Bwlch, er mwyn:

- Cyfarch yr argyfyngau natur a newid hinsawdd.
- Gweithio'n agosach gyda chymunedau Eryri.
- Creu enghraifft arweiniol a rheoli adeiladau hanesyddol yn amgylcheddol ac ariannol gynaliadwy.
- Atgyfnerthu gwreiddiau addysgiadol cryf y Plas drwy raglen sgiliau a phrentisiaethau uchelgeisiol.
- Sefydlu pencadlys newydd ar gyfer APCE ym Mhlas Tan y Bwlch.

#### Prosiect Plas y Bobl,

Mae APCE wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth ariannol gan gronfa Creu Cyngor Celfyddydau Cymru, i gyflawni prosiect Plas y Bobl. Bydd y prosiect yn bartneriaeth rhwng APCE, Cwmni'r Fran Wen ac artistiaid amlddisgyblaethol lleol, i archwilio'r berthynas rhwng y celfyddydau, iaith a natur.

Bydd y bartneriaeth yn arwain rhaglen o weithgareddau wedi'u cyd-gynhyrchu, sy'n cyfuno'r amgylchedd naturiol, yr iaith Gymraeg a mynegiant creadigol. Byddwn yn dapraru cyfleoedd unigryw i bobl ifanc ddatblygu sgiliau creadigol, meithrin hyder ac ail-gysylltu gyda'u tirwedd a'u hunaniaeth greadigol. Bydd allgymorth hygyrch a dulliau digidol yn ysbrydoli gweithredu dros yr hinsawdd a'r Gymuned, gan feithrin balchder a pherchnogaeth leol.

Mae'n brosiect uchelgeisiol, cynhwysol ac ysbrydoliedig, sy'n defnyddio'r celfyddydau i greu newid parhaus i bobl, lle a'r amgylchedd.

ENPA is currently developing a long-term plan to invest in Plas Tan y Bwlch, to:

- Meet the nature and climate change emergencies.
- Collaborate more closely with the communities of Eryri.
- Create an environmentally and financially sustainable management exemplar for historic buildings.
- Reinforcing the Plas's strong educational roots through an ambitious skills and apprenticeship programme.
- Establish a new ENPA headquarters at Plas Tan y Bwlch.

#### Plas y Bobl Project,

ENPA has been successful in attracting financial support from the Arts Council of Wales' Creu (Create) fund, to deliver the Plas y Bobl project. The project will be a partnership between ENPA, Fran Wen and local multidisciplinary artists, to explore the relationship between the arts, language and nature.

The partnership will lead a programme of co-produced activities, which combine the natural environment, the Welsh language and creative expression. We will provide unique opportunities for young people to develop creative skills, build confidence and reconnect with their landscape and creative identity. Accessible outreach and digital approaches will inspire climate action and the Community, fostering local pride and ownership.

It is an ambitious, inclusive and inspiring project, using the arts to create lasting change for people, place and the environment.



Byddwn yn penodi Artist Mewn Gwasanaeth i weithio'n agos gydag APCE, sefydliadau cymunedol a phartneriaid allweddol fel cwmni'r Frân Wen. Bydd yr artist yn gatalydd creadigol, yn annog cydweithredu ac ehangu sgiliau creadigol cymunedau lleol. Byddwn hefyd yn comisiynu artistiaid amlddisgyblaethol i weithio gyda'r Gymuned mewn gweithdai, perfformiadau a datblygiadau digidol.

Bydd sicrhau mynediad a hygyrchedd i gyfranogwyr yn agwedd hanfodol o'r prosiect. Bydd cwmni'r Frân Wen yn bartner allweddol, yn cyfrannu eu dull cydgynhyrchu a'u profiad helaeth o waith cymunedol. Bydd disgwyl i'r Artist Mewn Gwasanaeth weithio'n agos gydag APCE, Fran Wen ac artistiaid llawrydd, ymysg rhanddeiliaid a phartneriaid eraill.

We will be appointing an Artist in Service to work closely with ENPA, community organisations and key partners such as Fran Wen. The artist will be a creative catalyst, encouraging collaboration and expanding the creative skills of local communities. We will also commission multidisciplinary artists to collaborate with the Community in workshops, performances and digital developments.

Ensuring access and accessibility for participants will be an essential aspect of the project. Frân Wen will be a key partner, contributing their co-production approach and extensive experience of community work. The Artist in Service will be expected to work closely with ENPA, Fran Wen and freelance artists, amongst other stakeholders and partners.

## 4. Y Gofyniad

Bydd yr Artist Mewn Gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag APCE, cwmni'r Frân Wen (Y Cynhyrhydd), artistiaid llawrydd a chymunedau'r ardal (yn benodol pobl ifanc). Drwy'r celfyddydau a chyfryngau creadigol, bydd yr Artist Mewn Gwasanaeth yn ymgysylltu cymunedau'r ardal yn nyfodol Plas Tan y Bwlch a thirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol Eryri. Rydym yn awyddus i'r Artist Mewn Gwasanaeth ymwneud a phob agwedd o'r gwaith, o ymgysylltu cymunedol i'r broses gynllunio.

Bydd yr Artist Mewn Gwasanaeth yn gweithio gyda chymunedau a grwpiau led-led Parc Cenedlaethol Eryri a'r cyffiniau, gan ganolbwyntio'n benodol ar chwe chymuned gyfagos i Blas Tan y Bwlch, sef: Maentwrog, Ffestiniog, Llanfrothen, Talsarnau, Penrhyndeudraeth a Phorthmadog.

Mae'r prif gyfrifoldebau yn cynnwys:

- Cydweithio gyda phartneriaid i gynllunio a gwireddu rhaglen ymgysylltu greadigol cyffrous
- Cefnogi'r broses o recriwtio cyfranogwyr a gwirfoddolwyr cymunedol ar gyfer y prosiect
- Arsylwi a chyd-arwain gweithdai a sesiynau creadigol amrywiol gyda phobl o bob cefndir
- Cyfrannu at y broses o werthuso'r prosiect er mwyn mesur effaith yn unol ag amcanion a'r canlyniadau gosodedig
- Creu awyrgylch diogel sy'n ennyn ymddiriedaeth cyfranogwyr, - bobl ifanc yn bennaf.

Bydd gan yr Artist Mewn Gwasanaeth y gallu i gyfathrebu dwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn agored i dderbyn ceisiadau gan artist sy'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng.

## 4. The Requirement

The Artist in Service will work closely with ENPA, Frân Wen (The Producer), freelance artists and local communities (specifically young people). Through the arts and creative media, the Artist in Service will engage the communities of the area in the future of Plas Tan y Bwlch and the landscape, biodiversity and cultural heritage of Eryri. We want the Artist in Service to be involved in all aspects of the work, from community engagement to the planning process. The Artist in Service will collaborate with communities and groups across and around Eryri National Park, with a particular focus on six communities adjacent to Plas Tan y Bwlch, namely: Maentwrog, Ffestiniog, Llanfrothen, Talsarnau, Penrhyndeudraeth and Porthmadog.

Key responsibilities include:

- Collaborating with partners to design and deliver an exciting creative engagement programme
- Supporting the recruitment of community participants and volunteers for the project
- Observe and jointly lead various workshops and creative sessions with people from diverse backgrounds
- Contribute to the evaluation of the project in order to measure impact in accordance with the set objectives and outcomes
- Creating a safe atmosphere that inspires the trust of participants, mainly young people.

The Artist in Service will have the ability to communicate through the medium of Welsh and we're open to accepting applications from an artist working in any medium.

## 5. Lleoliad

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog a'r dirwedd a'r cymunedau cysylltiedig fydd canolbwynt y prosiect hwn, sef ardal Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Maentwrog, Talsarnau, Llanfrothen a Ffestiniog. Bydd rhwydd hnt i'r Artist Mewn Gwasanaeth a benodir weithio mewn a gyda chymunedau led-led Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal.

## 6. Manylion y Cleient

At bwrpas y comisiwn hwn, y cleient fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae APCE yn arddel pedwar o werthoedd strategol:

- Anelu
- Parch
- Cymreictod
- Egni

Disgwylir i'r Artist Mewn Gwasanaeth a benodir drwy'r Comisiwn hwn, arddel y gwerthoedd hyn wrth fynd ati i wireddu'r comisiwn.

Dylid anfon pob gohebiaeth ynglŷn â'r comisiwn hwn at:

Naomi Jones

Cyfarwyddwr Rheoli Tir

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

Penrhyndeudraeth

Gwynedd

LL48 6LF

[Naomi.jones@eryri.llyw.cymru](mailto:Naomi.jones@eryri.llyw.cymru)

## 5. Location

Plas Tan y Bwlch, Maentwrog and the landscape and associated communities will be the focus of this project, namely the area that includes Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Maentwrog, Talsarnau, Llanfrothen and Ffestiniog. The appointed Artist in Service will have free rein to work in and with communities across the Eryri National Park as well.

## 6. Client Details

For the purpose of this commission, the client will be the Eryri National Park Authority (ENPA). ENPA has four strategic values:

- Aim
- Respect
- Welshness
- Energy

The Artist in Service appointed through this Commission, is expected to instil these values as they deliver the commission.

All correspondence relating to this commission should be sent to:

Naomi Jones

Director of Land Management

Eryri National Park Authority

National Park Office

Penrhyndeudraeth

Gwynedd

LL48 6LF

[Naomi.jones@eryri.llyw.cymru](mailto:Naomi.jones@eryri.llyw.cymru)

## 7. Frân Wen

Byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth gyda Cwmni'r Frân Wen ar y prosiect yma. Mae Frân Wen yn gwmni theatr aml-ddisgyblaethol sy'n creu gwaith beiddgar yn yr iaith Gymraeg sy'n croesi ffiniau celfyddydol - mewn theatrau, trefi a dinasoedd, tirweddau gwledig a phlatformau digidol - wastad yn esblygu i adlewyrchu'r byd o'n cwmpas.

Gyda gwreiddiau dwfn mewn prosesau cyd-greu ac arbrofi artistig, mae'r cwmni wedi ei leoli yn Nyth yn Mangor ond yn gweithio ar draws Cymru a thu hwnt. Mae'r cwmni yn adnabyddus am ddod ag artistiaid a chymunedau at ei gilydd i ganfod y straeon sydd angen eu hadrodd. Maent yn meithrin arloesedd trwy gydweithio traws-gelfyddydol beiddgar gyda'r uchelgais i greu theatr perthnasol a gwreiddiol.

Maent yn angerddol am gysylltu pobl o bob cefndir yn ogystal ag egni, syniadau a gweledigaeth pobl ifanc am y dyfodol.

## 8. Y Ffi

Mae ffi y tendr hwn yn sefydlog (fixed fee). Cynigir ffi o £200 y dydd ar gyfer y comisiwn hwn @ 3 diwrnod yr wythnos dros 45 wythnos (cyfanswm o 135 diwrnod gwaith gydol y comisiwn 12 mis).

Cyfanswm y ffi fydd £27,000 (heb gynnwys TAW).

Bydd costau a threuliau rhesymol a geir fel rhan o'r comisiwn yn cael eu had-dalu. Telir costau teithio at bwrpas y comisiwn @ 45c y filltir.

## 7. Frân Wen

We will be working in collaboration with Cwmni'r Frân Wen on this project. Frân Wen is a multi-disciplinary theatre company who blur the boundaries to create bold Welsh language work that lives in theatres, towns and cities, rural landscapes and digital platforms - always evolving to reflect the world around us.

Rooted in co-creation processes and artistic experimentation, the company is based at Nyth in Bangor and works across Wales and beyond. The company is renowned for bringing artists and communities together to uncover the stories that matter. They foster innovation through fearless cross art-form collaboration and champion ambition to create relevant and defiantly original work.

They are passionate about connecting people from all walks of life as well as young people's energy, ideas and vision for the future.

## 8. The Fee

The fee for this tender is fixed. A fee of £200 per day is offered for this commission @ 3 days a week over 45 weeks (total of 135 working days throughout the 12 month commission).

The total fee will be £27,000 (excluding VAT).

Reasonable costs and expenses incurred as part of the commission will be reimbursed. Travel costs for the commission purpose are paid @ 45p per mile.

## 8. Y Tendr

Caiff y tendr hwn ei sgorio ar sail 100% ansawdd, yn unol â'r meini prawf isod:

Ymateb i'r briff	40%
Portffolio profiad blaenorol perthnasol	30%
Dealltwriaeth o gymunedau, amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol Eryri a Phlas Tan y Bwlch.	30%
<b>CYFANSWM</b>	<b>100%</b>

Gofynnir i bob ymgeisydd gyflwyno'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r tendr:

Mae'n ofynnol i bob ymgynghorydd sy'n tendro, i gyflwyno'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'u cais:

Manylion cyswllt

- Crynodeb o ddealltwriaeth o'r briff
- Profiad perthnasol yn y maes a thystiolaeth o'r profiad hwnnw
- Dogfen gryno sy'n amlinellu cynnig yr artistig, gan gynnwys cysyniadau a dull gweithredu ac ymgysylltu (hyd at 500 o eiriau).
- Portffolio neu enghreifftiau o waith artistig a/neu gymunedol blaenorol
- Datganiad artist cryno (hyd at 250 o eiriau)
- Cadarnhad o unrhyw anghenion mynediad neu gefnogaeth
- Ffurflen ymateb tendr (sydd wedi'i atodi i'r briff hwn).
- Rhaid i bob tendr gynnwys y wybodaeth uchod a chael ei gyflwyno gyda'r ffurflen ymateb.

## 8. The Tender

This tender is rated a 100% on the basis of quality, according to the criteria below:

Response to the brief	40%
Relevant previous experience portfolio	30%
An understanding of the communities, natural environment and cultural heritage of Eryri and Plas Tan y Bwlch.	30%
<b>TOTAL</b>	<b>100%</b>

All applicants are required to submit the following information as part of the tender:

All tendering consultants are required to submit the following information as part of their application:

Contact details-

- Summary of understanding of the brief
- Relevant experience in the field and evidence of that experience
- A concise document outlining the artistic proposal, including concepts and approach and engagement (up to 500 words).
- Portfolio or examples of previous artistic and/or community work
- A concise artist's statement (up to 250 words)
- Confirmation of any access or support needs
- Tender response form (attached to this brief).
- All tenders must contain the above information and be submitted with the response form.

## 9. Rheolau Tendor

Ni ystyrir tendr unrhyw gwmni / tîm sydd yn canfasio aelod neu swyddog o APCE neu unrhyw un sydd yn gweithredu ar ran APCE,

yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn perthynas â dyfarnu'r cytundeb hwn. Ni ystyrir ychwaith tendr unrhyw gwmni sydd yn:

1. Cytuno i beidio â chyflwyno tendr neu'n cytuno ar swm ei dendr gyda Thîm Dylunio arall
2. Cynnig neu gytuno i dalu neu roi swm o arian yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw un wneud unrhyw beth neu beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â'r tendr hwn.

Ceidw APCE yr hawl i wrthod unrhyw gynnig waeth pa mor gystadleuol fyddo swm y tendr.

Rhaid cyflwyno tendrau gyda'r ffurflen ymateb briodol, sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon.

Mae'n rhaid cyflwyno'r tendr drwy ebost i [Cyflwyniadau@eryri.llyw.cymru](mailto:Cyflwyniadau@eryri.llyw.cymru) erbyn 12pm ar 17/4/2026.

## 10. Amserlen

GWEITHGAREDD	DYDDIAD
Terfyn amser derbyn tendrau drwy flwch post Gwerthwch i Gymru	12pm 17/4/2026
Dyddiad cyfweiliad ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer.	30/4/2026
Hysbysu'r ymgeisydd llwyddiannus	5/5/2026
Dyfarnu cytundeb	8/5/2026
Dyddiad dechrau'r comisiwn	1/6/2026
Terfyn amser cwblhau'r comisiwn	31/5/2027

## 9. Tender Rules

The tender of any company/team shall not be considered if they canvass an ENPA member or officer or anyone acting on behalf of ENPA,

directly or indirectly in relation to the award of this agreement. No tender shall be considered either by any a company which:

1. Agrees not to submit a tender or agree the amount of their tender with another Design Team
2. Offers or agrees to pay or give a sum of money directly or indirectly to anyone to do or not do anything

something in relation to this tender.

ENPA reserves the right to reject any bid regardless of how competitive the tender amount may be.

Tenders must be submitted with the appropriate response form, which is included in this document.

Submission of the tender must be received by email to [Submissions@eryri.llyw.cymru](mailto:Submissions@eryri.llyw.cymru) by 12 noon on 17/4/2026.

## 10. Timeline

ACTIVITY	DATE
Deadline for receipt of tenders via Sell 2 Wales mailbox	12pm 17/4/2026
Interview date for shortlisted candidates.	30/4/2026
Successful candidate notified	5/5/2026
Award agreement	8/5/2026
Commission start date	1/6/2026
Commission completion deadline	31/5/2027



## Datganiad - Ffurflen Ymateb Declaration - Response Form

Rwy'n awdurdodedig gan y Corff Tendro (a'r holl gwmnïau a chyrrff/is-gontractwyr cysylltiedig) i ddarparu'r wybodaeth a roddir yn yr ymateb tendr hwn). Rwy'n datgan, ar ddyddiad arwyddo'r datganiad hwn, bod y wybodaeth a roddir yn gyflawn ac yn gywir i'r gorau o'm gwybodaeth, yn dilyn gwneud ymholiadau rhesymol.

Mae gan y Cleient ein caniatâd i:

- gwblhau pob gweithred angenrheidiol i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd; ac i
- basio'r wybodaeth a ddarparwyd i drydydd parti a gomisiyniwyd gan y Cleient ar bwrpas gwerthuso ein ymatebion.

Rwy'n cydnabod:

- ei bod yn drosedd i gynnig unrhyw rodd neu ystyriaeth i gyflogai corff cyhoeddus fel gwobr neu gymhelliad mewn perthynas i wobryio cytundeb cyhoeddus ac y bydd gweithred o'r fath yn rhoi'r hawl i'r Cleient i ddiarddel Corff Tendro o'r broses gaffael; a
- bydd unrhyw sefydlogi pris neu gyd-gynllwynio mewn perthynas i'r prosiect yn rhoi hawl i'r Cleient ddiarddel Corff Tendro o'r broses gaffael a gallai olygu trosedd.

Llofnodwyd:

Enw:

Swydd:

Corff:

Pris y Bid:

Dyddiad:

**Noder: Mae'n rhaid i'r datganiad gael ei llofnodi (fel sy'n berthnasol) gan lofnodwr awdurdodedig ar ran y Corff Tendro (ac unrhyw gwmnïau, cyrrff neu is-gontractwyr cysylltiedig), Os gwelwch yn dda, dychwelwch y ffurflen hon gyda'ch dogfen dendr gyflawn.**

I am authorised by the Tendering Organisation (and all relevant associated companies and organisations/ sub-contractors) to supply the information given in this tender response. I declare that, at the date of signing this declaration, the information given is complete and accurate to the best of my knowledge having made reasonable enquiries.

The Customer Organisation has our permission to:

- carry out all necessary actions to verify the information provided; and
- to pass any information provided to a third party commissioned by the Customer Organisation for the purposes of evaluating our responses.

I acknowledge that:

- it is an offence to give or offer any gift or consideration to employee of a public body as a reward or inducement in relation to the awarding of a public contract and that such action will give the Customer Organisation the right to exclude a Tendering Organisation from the procurement process; and
- any price fixing or collusion with other bidders in relation to the project shall give the Customer Organisation the right to exclude a Tendering Organisation from the procurement process and may constitute an offence.

Signed:

Name:

Position:

Organisation:

Bid Price:

Date:

**Note: The declaration must be signed (as applicable) by an authorised signatory on behalf of the Tendering Organisation (and any associated companies and organisations or subcontractors). Please return this form with your completed tender document.**